

Beirniadaeth Sioned Parry
Cystadleuaeth 375

Y Carped Hud

Rhyddiaeth 8-10 oed

Gorchwyl galonogol oedd darllen 101 o straeon , 24 yn sefyll allan a phob un yn safonol -canmolaf yr athrawon fu'n paratoi'r disgyblion i gyrraedd y fath safon.

Mae'r plant ddaeth i'r brig yn dangos dylanwad darllen y tu hwnt i gyfresi darllen a dylanwad llyfrau gwybodaeth, erthyglau gwê, eitemau newyddion, materion cyfoes ynogystal â llyfrau stori sy'n dysgu am strwythur stori. Cefais fy nhywys ar sawl taith- o garte'r Beasleys i Baris ac o Saigon i Senghennydd.

Dyma ddarllen oedd yn codi calon mewn cyfnod annodd ond byddai ambell enghraifft o hiwmor a'r profiad o fwynhau bywyd wedi bod yn braf. Mae nifer o straeon yn delio â phynciau difrifol a sawl un yn awyddus i efelychu arwres diweddera'r tô ifanc- Greta Thunberg.

Bai'r rhan fwya yw eu bod yn methu cynnal y straeon; yn cychwyn yn llawn addewid cyn blino a chwythu plwc. Gorffenwyd sawl stori yn syndod o swta!

Yn drydydd mae Merlyn y Nos- stori wahanol a gwreiddiol a'i strwythyr yn fedrus.

Yn ail gosodaf Madog. Dyma un wŷr yn union sut i saernio stori. Mae dylanwad y Mabinogi yn gryf ar ei waith a dengys ôl darllen eang.

Yn gyntaf, mae gwaith rhyfeddol Dwmpfen Malwoden. Gwaith aeddfed tu hwnt na fyddai allan o'i le mewn cystadleuaeth i blant ysgol uwchradd. Dyma ddawn dweud stori, brawddeg medrus, cymalau disgrifiadol a chysyllteiriau eang . Gall ddatgelu ffeithiau wrth i'r stori ddatblygu ac mae'n cynnal diddordeb y darllenydd gan dynnu ar sawl ffynhonell wrth adrodd y stori. Llongyfarchiadau.